cered
MENTER IAITH CEREDIGION

# Astudiaeth Achos
## Cymraeg yn y Gweithle
Cered: Menter Iaith Ceredigion



## Cymraeg yn y Gweithle: Y Stiwdio Brint

Busnes argraffu lluniau yw Y Stiwdio Brint yn Llambed. Y perchenogion yw Sarah ac Ashley Ward. Cymraes yw Sarah a dysgwr yw Ashley. Maent yn cynnig pob math o nwyddau lluniau yn y siop. Sefydlwyd yn 2016 ar Sgwâr Harfod, ac fe symudwyd y busnes i adeilad arall ar y Stryd Fawr yn 2018. Dewiswyd enw Cymraeg ar y busnes am sawl rheswm, ond yn bennaf i dangos mai pobl leol oedd yn agor busnes (nid cwmni o bant) ac mi oedd y penderfyniad i gael enw Cymraeg yn eistedd yn fwy esmwyth na sefydlu cwmni ag enw Saesneg mewn tref â chymuned Cymraeg cryf fel Llambed.

### Pa wasanaeth/au roedd eich mudiad wedi ei dderbyn gan eich swyddog Datblygu'r Gymraeg mewn Busnes?




Cawsom gyngor, asesiadau, a'n annog i newid rhai pethau fel rhan o'n busnes, e.e. hybu gwasanaeth a marchnata dwyieithog. Roedd y Swyddog Busnes yn galw mewn bob hyn a hyn ac yn cadw cyswllt personol gyda ni. Roedd hi hefyd yn danfon gwybodaeth o wasanaethau arall sydd ar gael, megis cyfieithu am ddim, ac unrhyw gyrsiau a fyddai o ddiddordeb. O'dd hyn yn fonws i ni, wedi gallu defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu er mwyn adnewyddu ein ffurflen archebu (ffotobŵth) a hefyd rhoi dechrau ar gyfieithu meddalwedd ein kiosks.

### Oedd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich busnes yn rhywbeth roeddech chi wedi ei ystyried o'r blaen?

Oedd, ond o'n i heb fagu'r hyder i gyflwyno'n marchnata ag ati yn Gymraeg ac yn ddwyieithog. Nawr ni'n deall fod ni'n rhan bwysig o hybu'r Gymraeg, ac yn trial defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd ble bynnag gallwn ni - yn enwedig ar rwydweithiau cymdeithasol

### Beth yw eich cefndir chi, a beth oedd eich teimladau am ddefnyddio'r iaith yn eich busnes cyn gweithio gyda'ch swyddog lleol?



Dwi'n dod o deulu Cymraeg iaith gyntaf, wedi byw yn Llambed tan adael yr ysgol i fynychu'r brifysgol yn Huddersfield yn 2005, ac yna dychwelyd nôl i Geredigion I fyw yn 2011. O'n i ddim yn hyderus o gwbl a ddim yn meddwl fod fy Nghymraeg i'n ddigon safonol i redeg busnes yn yr uniaith Gymraeg, felly yn tybio pam ei ddefnyddio o gwbl? Erbyn hyn mae e yn ddewis naturiol i ddefnyddio Cymraeg yn y siop a'n busnesau arall, a gan fod Ashley yn ddysgwr a oedd wedi cael gwersi ffurfiol yn y gorffennol, mae croesawi ddefnydd o'r Gymraeg wedi magu hyder iddo wrth sgwrsio gyda chwsmeriaid.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council
CYNNAL Y CARDI
Creu Cymunedau Cynaliadwy
Creating Sustainable Communities
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Beth oedd eich profiad o'r gwasanaeth?

Mae'r gwasanaeth yn rhwydd, naturiol ac yn gefnogol. Hefyd yn cefnogi busnesau i gymryd camau mawr 'mhlan tan fo nhw ddigon cyffyrddus i 'neud stwff ei hunain. Does dim angen dal llaw pob tro, ond mae e'n help yn y dechrau. O'n i byth wedi meddwl bydden i wedi croesawu Cymreictod mor naturiol mewn i'r busnes heb y cymorth i ddechrau yn y lle cyntaf. Nawr fi'n gallu 'sgwennu pob post ar cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog, ac mae ambell un yn hir!!
Mae'r Swyddog Busnes wedi rhoi'r hyder i mi gyfieithu ein gwefan Cwtsh Camera – bydden i byth wedi gallu mentro 'neud hwnna blwyddyn a hanner yn ôl.

## Ydych chi wedi cael ymateb ffarfiol wrth ddefnyddio'r Gymraeg lle gallwch chi yn eich busnes?

Mae lot o'r cwsmeriaid yn hapus gallu defnyddio'n gwasanaeth yn y Gymraeg. Ni'n teimlo mwy rhan o'r gymuned Cymraeg gyda rhai unigolion yn galw mewn yn gyson jyst i gael sgwrs. Ni'n rhan gadarn o gymdeithas Llambed ac mae hwnna'n cynyddu mwy o Gymraeg ni'n defnyddio. Ni'n cymryd rôl fwy esmwyth yn y gymuned Gymraeg, e.e. ysgrifennu erthyglau i Clonc 360, a bydden ni byth wedi rhagweld hwn yn digwydd.






Cyngor Sir CEREDIGION County Council
CYNNAL Y CARDI
Creu Cymunedau Cynaliadwy
Creating Sustainable Communities
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government